



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2002 Rhif 3273 (Cy.311)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Caerdydd a Bro
Morgannwg (Llanfihangel-ynys-
Afan a Grangetown) 2002

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn, a wnaed yn unol ag adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn rhoi effaith i gynigion gan Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru. Effaith y cynigion hynny fydd bod yr ardal (a ddangosir â llinellau du ar y map ffiniau y cyfeirir ato yn Erthygl 2 o'r Gorchymyn) yn cael ei throsglwyddo o gymuned Llanfihangel-ynys-Afan ym Mwrdeistref Sirol Bro Morgannwg i gymuned Grangetown yn Ninas a Sir Caerdydd ar ôl i'r Gorchymyn hwn ddod i rym ac o ganlyniad bydd y ffin rhwng Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg a Dinas a Sir Caerdydd yn dilyn canol Afon Elái.

Cafodd printiau o'r map ffiniau eu hadneuo a gellir eu harchwilio yn ystod oriau swyddfa arferol yn Swyddfeydd Dinesig Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg yn Holton Road, y Bari, Bro Morgannwg, a swyddfeydd Cyngor Dinas a Sir Caerdydd yn Neuadd y Sir, Glanfa Iwerydd, Caerdydd a swyddfeydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd (Yr Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol).

Mae Rheoliadau Newidiadau i Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976 (fel y'u diwygiwyd) y cyfeirir atynt yn Erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn cynnwys darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol ac atodol ynghylch effaith gorchymynion megis y gorchymyn hwn a'u gweithredu.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2002 No. 3273 (W.311)

LOCAL GOVERNMENT, WALES

The Cardiff and Vale of Glamorgan
(Michaelston and Grangetown)
Order 2002

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This Order, made in accordance with section 58(2) of the Local Government Act 1972 gives effect to proposals by the Local Government Boundary Commission for Wales. The effect of those proposals is that the area (shown hatched in black on the boundary map referred to in Article 2 of the Order) will be transferred from the community of Michaelston in the County Borough of The Vale of Glamorgan to the community of Grangetown in the City and County of Cardiff after this Order comes into force so that the boundary between the County Borough of The Vale of Glamorgan and the City and Council of Cardiff shall follow the centre of the River Ely.

Prints of the boundary map are deposited and may be inspected during normal office hours at the offices of The Vale of Glamorgan County Borough Council Civic Offices, at Holton Road, Barry, Vale of Glamorgan, the offices of the City and County of Cardiff Council at County Hall, Atlantic Wharf, Cardiff and at the offices of the National Assembly for Wales at Cathays Park, Cardiff (Local Government Modernisation Division).

The Local Government Area Changes Regulations 1976 (as amended) referred to in Article 2 of this Order contain incidental, consequential, transitional and supplementary provisions about the effect and implementation of orders such as this.

2002 Rhif 3273 (Cy.311)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

Gorchymyn Caerdydd a Bro
Morgannwg (Llanfihangel-ynys-
Afan a Grangetown) 2002

Wedi'i wneud

6 Rhagfyr 2002

Yn dod i rym yn unol ag

Erthygl 1(2)

2002 No. 3273 (W.311)

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

The Cardiff and Vale of Glamorgan
(Michaelston and Grangetown)
Order 2002

Made

6th December 2002

Coming into force in accordance with

Article 1(2)

Mae Comisiwn Ffiniau Llwydodraeth Leol i Gymru wedi cyflwyno adroddiad dyddiedig Ionawr 2002 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adrannau 54(1), 58(1) a 73 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(a) ar ei adolygiad ar y ffin rhwng Dinas a Sir Caerdydd a Cyngor Bwrdeistref Bro Morgannwg yn ardal Ffordd Ddolen Grangetown ynghyd â'r cynigion y mae wedi eu llunio amdani;

a chan bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi penderfynu rhoi effaith i'r cynigion hyn gydag addasiadau;

a bod mwy na chwe wythnos wedi mynd heibio ers i'r cynigion hynny gael eu gwneud;

yn awr mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac a freiniwyd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(b) yn gwneud y Gorchymyn canlynol.

Enwi a chychwyn

1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Caerdydd a Bro Morganwg (Llanfihangel-ynys-Afan a Grangetown) 2002.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2003, sef y diwrnod penodedig at ddibenion y Rheoliadau, ond at ddibenion pob achos sy'n arwain at etholiad neu'n ymwneud ag etholiad sydd i'w gynnwl ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff ei wneud.

(a) 1972 (p.70)

(a) *Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S.199/672).*

The Local Government Boundary Commission for Wales has submitted to the National Assembly for Wales in accordance with sections 54(1), 58(1) and 73 of the Local Government Act 1972(a) a report dated January 2002 on its review of part of the boundary between the City and County of Cardiff and the County Borough of The Vale of Glamorgan in the area of the Grangetown Link Road together with the proposals they have formulated thereon;

and the National Assembly for Wales having decided to give effect to these proposals without modification;

and more than six weeks having elapsed since those proposals were made;

now the National Assembly for Wales, in exercise of the powers given by the Secretary of State by section 58(2) of the Local Government Act 1972 which are vested in the National Assembly for Wales so far as exercisable in Wales(b) makes the following Order:

Name and commencement

1.-(1) This Order is called the Cardiff and Vale of Glamorgan (Michaelston and Grangetown) Order 2002.

(2) This Order comes into force on 1 April 2003 which is the appointed day for the purposes of the Regulations, except that for the purpose of all proceedings preliminary or relating to an election to be held on or after that date this Order shall come into force on the day after that on which it is made.

(a) 1972 (c.70)

(a) *See National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).*

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn -

Ystyr "Bro Morgannwg" ("Vale of Glamorgan") yw Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg;

ystyr "Caerdydd" ("Cardiff") yw Dinas a Sir Caerdydd;

ystyr "y map ffiniau" ("the boundary map") yw'r map a gafodd ei baratoi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'i farcio "Map Gorchymyn Caerdydd a Bro Morganwg (Llanfihangel-ynys-Afan a Grangetown) 2002" ac a adneuwyd yn unol â Rheoliad 5 o'r Rheoliadau;

ystyr "y Rheoliadau" ("the Regulations") yw Rheoliadau Newidiadau i Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976 (fel y'i diwygiwyd)(a).

Newidiadau i Ardaloedd Cymunedau

3. Bydd y rhan o Fro Morgannwg sydd yng Nghymuned Llanfihangel-ynys-Afan ac a ddangosir â llinellau du ar y map ffiniau yn cael ei gwahanu oddi wrth y gymuned honno a bydd yn ffurfio rhan o gymuned Grangetown yng Nghaerdydd.

Interpretation

2. In this Order -

"the boundary map" ("y map ffiniau") means the map prepared by the National Assembly for Wales and marked "Map of The Cardiff and Vale of Glamorgan (Michaelston and Grangetown) Order 2002" and deposited in accordance with Regulation 5 of the Regulations;

"the Regulations" ("y Rheoliadau") means the Local Government Area Changes Regulations 1976 (as amended)(a);

"Cardiff" ("Caerdydd") means the City and County of Cardiff.

"Vale of Glamorgan" ("Bro Morgannwg") means the County Borough of The Vale of Glamorgan.

Changes in Community Areas

3. The part of the Vale of Glamorgan which is in the community of Michaelston and is shown hatched in black on the boundary map is separated from that community and forms part of the community of Grangetown in Cardiff.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

6 Rhagfyr 2002

E. Hart

Signed on behalf of the National Assembly for Wales

6th December 2002


Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Minister for Finance, Local Government and Communities

(a) O.S. 1976/246, fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Newidiadau i Ardaloedd Llywodraeth Leol (Diwygio) 1978 (O.S. 1978/1247).

a) S.I. 1976/246 as amended by the Local Government Area Changes (Amendment) Regulations 1978 (S.I. 1978/1247).

Map Gorchymyn Caerdydd a Bro Morgannwg (Llanfihangel-ynys-Afan a Grangetown) 2002



Tir sy'n cael ei drosglwyddo o Gymuned Llanfihangel-ynys-Afan ym Mwrdeistref Sirol Bro Morgannwg | Gymuned Grangetown yn Ninas a Sir Caerdydd



Efin Bresennol yr Awdurdodau Heol



Y Ffin Gymunedol Bresennol



Efin Newydd yr Awdurdodau Heol




0 250 500 metrau

CartoGraffeg, Cynlliad Cenedlaethol Cymru

Sei'r y map hwn ar fap Arolwg Ordnaans gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnaans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi, o Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl, Byddai ei atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri'r hawlfraint a gallai arwain at eich erlyn neu ddyfyn achos sifil yn eich erbyn. Rhif trwydded GD 272221.

Map of the Cardiff and The Vale of Glamorgan (Michaelston and Grangetown) Order 2002



Land transferred from the Community of Michaelston in the County Borough of The Vale of Glamorgan to the Community of Grangetown in the City and County of Cardiff



Existing Local Authority Boundary



Existing Community Boundary



New Local Authority Boundary



0 250 500 metres

CartoGraphics, National Assembly for Wales

This map is reproduced from the Ordnance Survey map by the National Assembly for Wales with the permission of The Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown copyright. All rights reserved. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence Number: GD 272221

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2002 Rhif 3273 (Cy.311)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

Gorchymyn Caerdydd a Bro
Morgannwg (Llanfihangel-ynys-
Afan a Grangetown) 2002

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2002 No. 3273 (W.311)

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

The Cardiff and Vale of Glamorgan
(Michaelston and Grangetown)
Order 2002

© Hawlfraint y Goron 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery
Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr
Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2003

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited
under the authority and superintendence of Carol Tullo,
Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of
Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090628-4



£3.00

W10/02/03

ON